

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 5ed 2024 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Dewi Pritchard (cadeirydd), Gwenda Evans, Bethan Thomas, Rita Jones, Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Gary Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Iolo Evans, Meilir Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

i) Coed ger mynedfa Clwb Carafanau Cefnddwysarn – roedd yr adran Priffyrdd wedi cysylltu â'r tirlfeddianwr yn gofyn iddynt asesu'r coed cyn y gaeaf.

ii) Cais am arwydd i gynghori cerbydau mawr i beidio defnyddio'r ffordd o Bryn Tirion, Llandderfel i'r B4391 – yn anffodus oherwydd fod rhestr gwaith yr Uned Draffig yn orlawn ar hyn o bryd, nid oedd ganddynt yr adnoddau i dderbyn unrhyw geisiadau newydd. Gofynnwyd i'r Cyngor ail gyflwyno'r cais ym mis Ionawr.

iii) B4391/B4402 – roedd cyfarwyddyd wedi cael ei roi i'r gweithlu ail-beintio'r llinellau gwyn yng nghanol y ffordd ac mi fyddai'r llinellau ar ochr y ffordd yn cael ei cynnwys mewn rhaglen waith ymhellach yn y flwyddyn.

iv) Arwydd ffordd newydd ar yr B4501 ger Tŷ Cerrig, Cwmtirmynach – roedd cyfarwyddyd wedi cael ei roi i'r gweithlu i'w ail osod ar bostyn 'dog leg'.

v) Problemau parcio yn Llanfor – cafwyd cadarnhad mae tir preifat oedd y safle o flaen yr eglwys ac nid oedd posib ymyryd gyda phwy oedd yn parcio yno.

b) Mynwentydd.

Eglurodd y cler fod y contractwr yn parhau i glirio'r mynwentydd a bod yr hysbysfyrddau wedi cael ei archebu. Roedd y cler wrthi yn casglu hanes y mynwentydd a fyddai'n cael ei arddangos ar yr hysbysfyrddau ac ar dudalen newydd ar y wefan.

c) Cyflenwad nwyddau ar gyfer y difibs lleol.

Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol roedd y cler wedi cael cadarnhad y byddai'n rhaid talu am nwyddau fel padiau a batris o hyn ymlaen. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gydweithio a'r pwyllgorau lleol ac ychwanegu'r gost i'r gyllideb flynyddol.

ch) Lloches bws newydd i Lanfor.

Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol derbyniwyd deiseb wedi ei arwyddo gan drigolion Llanfor yn cefnogi'r cais am loches bws newydd. Roedd y cler am barhau i drafod gyda'r asiantaethau perthnasol.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Rhybudd gwaith ail-wynebu'r B4501, Cwmtirmynach, 4-8/11/24. Cafwyd adroddiad gan y cler o'r trafferthion roedd y trigolion lleol wedi cael gyda'r trefniadau cau'r ffordd yn ystod y gwaith.

b) Un Llais Cymru.

i) Nodyn Datblygu Ymarfer 9 – Cylch Perwyl ar gyfer Cyfarfodydd Cynghorau.

ii) Cytundeb Tâl ar gyfer 2024-25. Gofynnwyd i'r cler ofyn i Un Llais Cymru am arweiniad cyn trafod ymhellach.

iii) Model Reoliadau Ariannol 2024. Cytunwyd i fabwysiadu'r rheoliadau newydd.

iv) Amserlen Flynyddol o Weithredoedd Ariannol.

c) Amrywiol.

i) Triathlon Y Bala – cais am adborth.

ii) Llywodraeth Cymru - Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-2026.

iii) Cyngor Cymuned Llanystumdwy - cynnig i gymeradwyo Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

iv) Dyfodol Plas Tan y Bwlch – cais am gefnogaeth.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

i) C24/0764/04/YA – Creu traciau fferm. Rhiwlas Home Farm.

ii) C24/0907/04/DT – Cais i ddymchwel cegin ac ystafell aml ddefnydd ayyb. Cynlas Bach, Cefnddwysarn.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i'r ceisiadau.

vi) Materion Ariannol.

a) Taliadau.

Cytunwyd i dalu –

i) Hysbysfyrdau i'r mynwentydd (ad-daliad i'r clerc)

ii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd)

vii) Materion lleol.

a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.

i) Sbwriel ar ochr y ffyrdd, yn benodol ar yr A494 o Bethel i Glanrafon ac ar yr A4212 rhwng Bala a Frongoch.

ii) Gwrych angen ei dorri'n ôl ar ochr chwith yr A494 gan ei fod yn cuddio arwydd 'Cefnddwysarn'.

iii) Cais i ail leoli'r goleuadau traffig ym Methel a phryder fod darn arall o'r ffordd yn gwanhau.

iv) Cais am olau stryd wrth y lloches bws presennol yn Llanfor.

v) Pryder gall y llechi rhydd o do'r eglwys yn Llanfor ddisgyn i lawr ar ymwelwyr i'r fynwent.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Rhagfyr 3ydd am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.